Worse still, if your competitors have a website and you don't, then they are picking up your share of the prospects for your type of business when they search online.

Pay As You Go websites are proving to be a godsend to small and medium-sized businesses across the UK and Ireland.

Introduced by OPG Ltd, who have been building websites for more than eight years, and whose innovative ideas have been helping businesses to grow and prosper for over 30 years, they provide businesses and professional practices with 24/7 access to their targeted market.

A website not only saves you money on brochures and other such material, it greatly increases the effectiveness of your current advertising because, in effect, you are open for business around the clock.

Uniquely, the Pay - Monthly service comes with Web Partner support. This 'phone-a-friend' facility will provide answers to your queries and help you develop your site as your business grows.

So if you don't yet have a website, or are unhappy with the one you have, call today for an informal chat on 0800 612 1408. You'll be glad you did!

Attract **more business** by placing your advert **here**. Simply call 0800 0234 196.

ADVERTISING FEATURE

PRACTIS GRWP MEDDYGFA VICTORIA

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn i groesawu cleifion a rhoi gwybodaeth iddynt. Derbyniwch y copi hwn er gwybodaeth. Rydym yn eich cyngori i gadw'r llyfryn wrth ymyl eich ffôn fel ei fod yn hwylus wrth law. Os ydych angen rhagor o wybodaeth neu gyngor ynglyn â chynnwys y llyfryn gofynnwch i'r staff yn y dderbynfa am gymorth.

Y MEDDYGON TEULU

(partneriaeth anghyfyngedig)

Dr David Thomas Williams

MBBS Llundain 1982, MRCP, DRCOG

Dr Martyn Glyn David Petty

MBChB Manceinion 1986, DRCOG, BSc

Dr Sharon Wyn Bertorelli

MB, ChB Caerdydd 1988

Dr Gareth Ford

MBChB, Caerdydd 1990, MRCP

Dr Ruth Johnson

BSc 1996, MBChB Lerpwl 1997, MRCS Glasgow 2002, MRCP 2005, DFFP 2006

Dr Safia Akram

MBBS Islamabad 1990, MRCP 2007, DFFP 2008

STAFF Y PRACTIS

Mae ein staff yn gweithio gyda'r Meddygon Teulu i ddarparu cymorth a chynghori i'r cleifion ond weithiau gall eu gwaith fod yn anodd.

Os byddwch yn gorfod aros am hir neu'n cael eich blino gan gwestiynau, cofiwch fod ein staff yn gweithredu'n unol â'n cyfarwyddiadau ni er mwyn gwneud yn siwr fod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol.

Mae'r practis yn cyflogi tua 24 o staff, a byddwch yn eu hadnabod oddiwrth eu gwisg. Gall ein staff amrywio fel y bydd anghenion y practis yn newid. Dyma'r staff ar hyn o bryd:

RHEOLWR Y PRACTIS

Mr Kevin Edwards sy'n rheoli gweithgareddau'r practis o ddydd i ddydd, ac mae ganddo gyfrifoldeb ariannol am gyfrifon y practis.

DERBYNYDDION

Mae gennym dderbynyddion yn y tair meddygfa, a'u gwaith yw cynorthwyo gyda'r gwasanaeth i'r cleifion a'r gwaith gweinyddu. Mae eu dyletswyddau'n cynnwys gwneud apwyntiadau, trefnu casglu amalbresgripsiynau, ffeilio ac adfer cofnodion meddygol.

DERBYNYDDION/DOSBARTHU MEDDYGINIAETHAU

Mae'r staff hyn yn gweithio o'n meddygfeydd ym Modedern a'r Fali, ac maent yn darparu cefnogaeth i'r partneriaid, y cleifion a'r tîm gofal iechyd sylfaenol gyda gweinyddu, gwaith derbynfa a dosbarthu meddyginiaeth.

YSGRIFENYDDION

Mae ein hysgrifenyddion yn darparu gwasanaeth llawn o gefnogaeth ysgrifenyddol i'r practis yn ogystal â gwaith gweinyddol cyffredinol i'r clinigau.

NYRSYS Y PRACTIS

Byddwch yn adnabod ein nyrsys oddi wrth eu gwisg nyrs glas. Maent yn darparu, gwasanaeth gwerthfawr gan gynnwys rhedeg clinigau, trefnu brechiadau, rhoi cyngor ar iechyd, a rhoi profion gwaed. Dyma'u henwau a'u cymwysterau:

Bethan Hughes	RGN, Bydwraig Gofrestredig
Angela Rylance	RGN
Ira Spencer	SEN, RGN
Jane Rylance	RGN
Glenys Williams	Cynorthwydd Gofal Iechyd

STAFF CYSYLLTIOL (CYFLOGIR GAN BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR)

YMWELWYR IECHYD

Ffôn: (01407) 766000

Bydd Ymwelwyr Iechyd sydd wedi eu lleoli yn Ysbyty Penrhos Stanley yn dod i'n tair meddygfa hefyd. Mae eu dyletswyddau'n cynnwys ymweld â'r holl deuluoedd sydd â phlant o dan bump oed, a rhedeg Clinigau Imiwneiddio Plant.

NYRSYS CYMUNEDOL

Llinell uniongyrchol: (01407) 766000

Mae'r Nyrsys Cymunedol wedi eu lleoli yn Ysbyty Penrhos Stanley ac maent yn darparu gofal nyrsio i gleifion sy'n methu mynd i'r feddygfa.

BYDWRAGEDD

Ffôn: (01407) 766000

Mae'r bydwragedd yn rhedeg ein clinigau cynenedigol yn Ysbyty Penrhos Stanley, ac maent hefyd yn ymweld â mamau cyn ac ar ôl geni. Byddant yn gofalu am y babi am y pythefnos gyntaf o'i bywyd.

CYNGHORYDD

Bydd Cyngorydd yn dod i'r feddygfa'n wythnosol i helpu cleifion sydd angen cwnsela. Trefnir apwyntiadau trwy'r Meddygon Teulu.

DIETEGYDD

Bydd Dietegydd yn dod i roi cyngor bob pythefnos. Trefnir apwyntiadau trwy'r Meddygon Teulu neu Nyrsys y Practis.

GWYBODAETH AM EIN APWYNTIADAU

SUT MAE'R APWYNTIADAU YN GWEITHIO.....

Dydi ddim yn bosibl i gael apwyntiadau sydd yn gweithio i bawb, rydym yn teimlo fod y ffordd yma yn rhoi dewis o feddyg i'r claf os ydi'n bosibl, ac hefyd yn gwneud siwr fod cleifion gyda phroblemi brys yn cael ei gweld ar yr un diwrnod.

APWYNTIAD BRYD

Rydych angen apwyntiad brys os oes gennych broblem sydd methu aros tan yr apwyntiad arferol nesaf. Os ydych angen apwyntiad brys, cysylltwch a'r derbynyddion. Byddant yn gofyn am fanylion o'ch salwch, mae hyn yn sicrhau os oes angen i chwi weld y meddyg na'i ynteu fuasai nyrs yn gwneud. Os oes gennych broblem gyda'ch dwr, fydd rhaid dod a sampl dwr gyda chwi, os oes gennych boen yn y frest fydd rhaid i'r nyrs wneud profiad calon arnoch.

Mae apwyntiad brys yn cael ei gynnig o 8 y bore, os cysylltwch cyn 12 dydd fe gewch apwyntiad cyn cinio. Os ydych yn cysylltu ar ol 12 dydd, byddwn yn ymfyn i chwi ffonio a'r ol 3 y pnawn pan fydd rhagor a apwyntiadau brys yn cael ei gollwng, cewch apwyntiad y pnawn/noswaith honno. Mae ein meddygon yn cymeryd ei tro i wasanaethu'r feddygfa brys, yn anffotunus ni fedrwn adael i chwi wybod enw y meddyg.

APWYNTIAD ARFEROL

Fedrwch wneud apwyntiad arferol gyda feddyg o'ch dewis i fyny at bedair wythnos o flaen llaw, (os ydi gwyliau yn caniatáu). Os ydych angen apwyntiad arferol cysylltwch a'r derbynyddion, a byddant yn hapus i roi apwyntiad nesaf i chwi.

Mae yna nifer o alwadau ffon peth cyntaf yn y bore am apwyntiadau brys, felly rydym yn gofyn i chwi gysylltu ar ol cinio am apwyntiad arferol.

GWNEUD APWYNTIAD

Ffoniwch	Caergybi	(01407) 762713	} gweler
	Bodedern	(01407) 740242	} yr oriau
	Y Fali	(01407) 740706	} agor

Mae yn bosib gwneud apwyntiad ar y we. Cysylltwch am fwy o wybodaeth. Os na allwch gadw apwyntiad, a fydddech ogystal â rhoi gwybod i ni cyn gynted ag y bo modd os gwelwch yn dda.

ORIAU'R FEDDYGFA

Victoria	Llun - Gwener	8.00yb - 6.30yh
Bodedern	Llun/Mawrth/Mercher/Iau/Gwener	9.00yb - 1.00yh
	Llun/Mercher/Gwener	3.40 - 6.00yh
Y Fali	Llun/Gwener	1.00 - 4.30yh
	Mawrth	1.00 - 4.00yh
	Dydd Iau	2.00 - 6.00yh

PAN FYDD Y FEDDYGFA AR GAU

Mewn argyfwng ffoniwch Caergybi 762713. Bydd eich galwad yn cael ei hateb neu byddwch yn derbyn neges gan y gwasanaeth y tu allan i oriau. Rhowch eich enw, eich cyfeiriad a'ch rhif ffôn.

Mae'r cyfnod tu allan i oriau yn golygu rhwng 6.30yh a 8.00yb yn ystod yr wythnos, a thrwy'r dydd a'r nos ar ddydd Sadwrn, dydd Sul, Gwyl y Banc a Gwyliau Cyhoeddus. Mae'r gwasanaeth tu allan i oriau ar gyfer cleifion sydd angen gweld Meddyg, ar frys, yn ystod y cyfnod tu allan i oriau, ac sy'n methu disgwyl tan bydd y feddygfa ar agor nesaf. Pan fyddwch yn ffonio'r rhif Tu Allan i Oriau, bydd eich galwad yn cael ei hateb gan un o'r dderbynyddion Tu Allan i Oriau, yn Galw lechyd Cymru a fydd yn penderfynu pa fath o alwad yw eich galwad chi - Argyfwng - Brys - Llai o Frys.

Byddant yn eich cyngori neu'n cysylltu â'r Meddyg a fydd ar ddyletsydd. Efallai y gofynnir i chi fynd i'r ganolfan Tu Allan i Oriau yn Ysbyty Penrhos Stanley yng Nghaergybi ar ddydd Sadwrn ac ar foreau Gwyl y Banc, neu i Feddygon Menai ym Mangor ar adegau eraill.

CYNGOR DROS Y FFÔN [PAN FYDD Y FEDDYGFA AR AGOR]

Os ydych angen siarad gyda meddyg ar y ffon cysylltwch a'r Feddygfa cyn gynted a phosibl yn y bore, fydd y staff yn rhoi eich neges i'r meddyg, cofiwrch fydd y meddyg ddim yn cysylltu tan ar ol cinio, ac yn derbynnu ar faint o waith sydd gennynt. Os ydych angen siarad gyda meddyg ar frys, dywedwch wrth y staff a mi ddywedant wrth y meddyg yn syth.

Mae Nyrses profesiynol NHS Direct yn medru rhoi gwybodaeth 24 awr o'r dydd ar 0845 4647.

YMWELIADAU CARTREF [PAN FYDD Y FEDDYGFA AR AGOR]

Os ydych angen ymweliad cartref heb fod yn achos brys, a fydddechystal â chysylltu â ni cyn 10.00yb gan y bydd hyn yn osgoi oedi diangen.

Ar gyfer pob ymweliad ar Ynys Gybi ffoniwch (01407) 762713

Ar gyfer pob ymweliad ar Ynys Môn ffoniwch (01407) 740242

Mae y meddygon yn gwneud ymweliadau cartref ar ol Meddygfa y bore, os ydi'r alwad yn un ar frys, dywedwch wrth y staff.

Cofiwch

- Rhowch gyfarwyddiadau clir ynglyn â sut i gyrraedd eich ty, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell.
- Nodwch pa mor ddifrifol yw'r broblem.
- Eglurwch i'r derbynydd beth yw natur y broblem
- Mae'r ymweliadau cartref ar gyfer y bobl sy'n methu mynd i'r feddygfa am resymau meddygol.

PLANT SÂL

Bydd plant yn cael eu gweld cyn gynted ag y bo modd, os byddwch yn dod â nhw i'r feddygfa (gall hyn fod yn gynt na chael ymweliad cartref). Os nad ydych yn siwr a ddylech ddod â'ch plentyn allan, ffoniwch y feddygfa gyntaf a gall y Meddyg eich cyngori.

For the latest information click to: www.meddygfavictoriasurgery.co.uk

PRESGRIPSIWN

- Ni fyddwn yn derbyn cais am bresgripsiwn dros y ffôn.
- I'r rhai sy'n derbyn meddyginiaeth yn reolaidd, defnyddiwch y slip pwrpasol.
- Ailbresgriptiwn - BYDD ANGEN GADAEI DAU DDIWRNOD GWAITH CYN CASGLU
- Gallwch drefnu presgripsiwn ar y we. Gofynnwch am fanylion pellach. GADEWCH DDAU DDIWRNOD GWAITH CYN CASGLU.
- Mae bob fferyllfa'n gweithredu system casglu hwylus iawn ar gyfer amlbresgripsiynau - gofynnwch i'ch Fferylllydd.
- Os ydych eisiau eitem sydd ddim ar eich rhestr adnewyddu dylech weld y Meddyg.

I'r cleifion sydd yn byw mewn ardal wledig, ac yn defnyddio Meddygfa Bodedern neu Y Fali rydym yn cynnig gwasanaeth presgreibio o'r meddyginiaeth cyffredin. Gellir archebu meddyginiaeth drwy ddefnyddio eich presgripsiwn rheolaidd/neu drwy lythyr/neu ar y we (ond dim drwy alwad ffon) o fewn oriau agor y feddygfa.

Fodd bynnag, mewn argyfwng gwnawn ein gorau i'ch helpu os oes angen.

"Oriau Tu Allan" cysylltwch a NHS Direct am fanylion eich Fferyllfa agosaf (0845 8501362).

CLINIGAU ARBENNIG

CLINIGAU CYNENEDIGOL, ÔL-ENEDIGOL, AC AROLYGU/IMIWNEIDDIO PLANT

Trwy apwyntiad yn unig (gweler oriau'r feddygfa).

PRAWF CEG Y GROTH

Gwneir y profion hyn bob dydd gan Nyrsys y Practis trwy apwyntiad, a byddant yn cael eu gwneud bob tair blynedd. Mae hwn yn wasanaeth sgrinio pwysig - PEIDIWCH AG ANWYBYDDU eich llythyr atgoffa.

Os byddwch yn dymuno peidio â chael eich cynnwys yn y rhaglen Sgrinio Serfigol Cenedlaethol, ysgrifennych lythyr at eich Adran lechyd, Preswylfa, Hendy Road, Mold CH7 1PZ yn datgan eich bod yn derbyn cyfrifoldeb llawn am eich dymuniad i beidio â chael eich cynnwys.

DULLIAU ATAL CENHEDLU BRYs

Os byddwch angen cyngor ynglyn â dulliau atal cenhedlu brys, gellir gwneud apwyntiad ar y diwrnod hwnnw gyda nyrs, os na fydd meddyg ar gael. Mae hwn yn wasanaeth hollol gyfrinachol - bydd y derbynydd yn deall ac yn barod iawn i helpu. Neu gallwch gael cyngor gan fferylllydd.

MÂN DRINIAETHAU

Ewch i weld y Meddyg i gael eich asesu yn gyntaf.

HYLIF NITROGEN

Ar gyfer rhai briwiau i'r croen. Ar yr ail a'r pedwerydd dydd Mercher yng Nghaergybi - ewch i weld y Meddyg yn gyntaf.

CYNGOR YNGLYN Â THEITHIO A BRECHU

Gwnewch apwyntiad gyda un o Nyrsys y Practis er mwyn cael cyngor ynglyn â theithio a hynny mewn da bryd cyn i chi fynd dramor er mwyn i'ch gofynion gael eu hasesu. Gall rhai amserlenni ar gyfer brechu fod yn gymhleth ac mae'n rhaid eu cynllunio o leiaf wyth wythnos cyn mynd dramor er mwyn cael yr amddiffyniad llwyrhaf rhag haint.

For 24 hour information click to: www.meddygfavictoriasurgery.co.uk

Mae cyngor ynglyn â theithio'n ddiogel yn bwysig felly ceisiwch gynllunio ymlaen llaw. Nid yw archebu gwyliau ar y funud olaf yn cael ei ystyried yn argyfwng a gall roi pwysau diangen ar bractis prysur pan fydd amser ar gyfer apwyntiadau yn brin. Os na allwn roi cymorth yn syth yn y feddygfa, gallwn roi manylion am y clinig teithio Preifat agosaf. Meddygfa Victoria yw'r Ganolfan Dwymyn Felen leol. Sylwer: mae tâl am rai brechiadau sydd ddim ar gael gan Wasanaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

ATAL YSMYGU

Mae gennym gyn'ghorwraig arbennig i'ch helpu roi gorau ysmegu-trwy gyngor neu feddyginiaeth.

CLINIGAU FFLIW

Gan amlaf bydd brechiadau ffliw blynyddol yn cael eu gwneud ar ddiwedd mis Medi. Bydd y cleifion sydd yn y grwp "mewn perygl" yn derbyn gwahoddiad trwy'r post. Hefyd gallwch ffonio i wneud apwyntiad ar gyfer un o'r sesiynnau hyn. Os ydych yn meddwl y dylech gael brechiad, gofynnwch yn y dderbynfa. Os ydych yn perthyn i "gategori mewn perygl", ac nad ydych eisiau cael brechiad rhowch wybod i staff y dderbynfa.

BRECHIADAU NIWMONIA

Mae'r Prif Swyddog Meddygol wedi argymhell y dylai pob claf sy'n 65 oed neu'n hyn, yn ogystal â'r rhai mewn grwpiau "mewn perygl", gael eu brechu rhag haint niwmococol o 1^{af} Ebrill 2005 ymlaen. Un pigiad yw'r brechiad hwn a gellir ei roi ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Dim ond un pigiad y byddwch ei angen; nid yw'n cael ei roi'n flynyddol fel brechiad ffliw. Gofynnwch am ragor o fanylion yn y dderbynfa.

Mae ein practis yn cynnal clinigau adolygu blynyddol i'r rhai sy'n dioddef o Asthma, Clefydd y Galon, Pwysau Gwaed Uchel, Clefydd Siwgr, a Anadlu Cronig, a Chlefydd Siwgr. Mae'r nyrsys yn darparu gwasanaeth pwysig i chi trwy fonitro eich cyflwr yn flynyddol ac yn rhoi sylw i newidiadau posib yn eich anghenion.

Byddwch yn derbyn llythyr yn eich gwahodd i'r clinig ac efallai y bydd yn rhaid i chi gael prawf gwaed neu brawf dwr cyn yr apwyntiad.

Os nad ydych yn dymuno dod i'r clinig, yna anfonwch lythyr at y meddyg fel bod eich dymuniad yn cael ei gofnodi.

NEWID CYFEIRIAD/RHIF FFÔN

Ar brydiau mae'r practis wedi cael trafferth cysylltu â chleifion mewn perthynas â materion iechyd oherwydd bod y cyfeiriad neu'r rhif ffôn sydd yn ein cofnodion yn hen a heb ei ddiweddarau. A fydddech mor garedig â rhoi gwybod i ni cyn gynted ag y bo modd am unrhyw newid yn y manylion hyn.

SYLWADAU AC AWGRYMIADAU

Rydym yn falch o dderbyn sylwadau ac awgrymiadau oddi wrth ein cleifion a rhoi ystyriaeth iddynt. A fydddech mor garedig â rhoi eich barn mewn ysgrifen yn y dderbynfa neu defnyddiwch ein blwch awgrymiadau.

PARCIO CEIR

Mae'r maes parcio ar gyfer cleifion yng nghefn adeilad Meddygfa Victoria. Mae maes parcio bychan yw hwn, ac ni ddylid gadael ceir yno ac eithrio pan fyddwch yn mynd i'r feddygfa. Mae rhai o'r lleoedd parcio wedi'u cadw ar gyfer y Meddygon. A fydddech mor garedig â pheidio â chreu rhwystr yn y fynedfa gan fod cerbydau brys yn ei defnyddio.

CYFLEUSTERAU AR GYFER POBL ANABL

Mae rampiau a drysau llydan ym mhob un o'n meddygfeydd er mwyn hwyluso mynediad i gleifion anabl. Mae toiledau addas ar gyfer cleifion anabl ym mhob un o'n meddygfeydd.

MEDDYGON TEULU DAN HYFFORDDIANT/MYFYRWYR

Mae ein practis yn bractis hyfforddi/addysgu. Mae ein Meddygon dan hyfforddiant wedi eu cymhwyso'n llawn ac mae ganddynt lawer o brofiad o weithio mewn ysbyty. Bydd Meddygon dan hyfforddiant ynghlwm wrth ein practis am gyfnodau rhwng chwe mis a blwyddyn, ac mae cleifion yn gweld bod eu dull ffres a brwdfrydig o weithredu yn ychwanegu at y gofal iechyd yr ydym yn ei ddarparu. Gan amlaf bydd y Meddygon dan hyfforddiant yn dod yn bartneriaid Meddygon Teulu wedi iddynt gwblhau eu hyfforddiant, ac maent bob amser yn cael eu hannog i ofyn am gyngor oddi wrth bartneriaid y practis pan fyddant ei angen.

Pan fyddwch yn gwneud apwyntiad, efallai y byddwn yn gofyn i chi a hoffech gael eich gweld gan un o'n Meddygon dan hyfforddiant. Maent yn Feddygon rhagorol ac wedi'u penodi gan y practis. Rydym yn hyderus y byddant yn rhoi triniaeth fodern, effeithiol a llawn gofal i'n cleifion.

Rydym yn ffodus hefyd o gael myfyrwyr meddygol ynghlwm wrth ein practis am gyfnodau byr. Gyda chaniatâd y claf gall y myfyrwyr meddygol fod yn bresennol gyda'r partneriaid er mwyn iddynt ddysgu am ymarfer cyffredinol.

Hefyd bydd Nyrsys sy'n fyfyrwyr ynghlwm wrth y Staff Nyrsio ar adegau.

SUT I GOFRESTRU

I gofrestru gyda'n meddygfa, ewch i weld staff y dderbynfa yn unrhyw un o'n tair cangen. Byddant yn gofyn am eich cerdyn meddygol neu'n rhoi ffurflen gofrestru i chi os yw eich cerdyn ar goll. O dan ein cytundeb Gwasanaeth Iechyd Gwladol presennol byddwch yn cael eich cofrestru gyda Meddygfa Victoria ac nid gyda Meddyg Teulu unigol. Gallwch weld unrhyw un o'n partneriaid pan fyddwch angen gweld Meddyg fel y bydd y drefn apwyntiadau'n caniatáu.

SIARTER CLAF Y PRACTIS

Bydd y practis yn gwneud pob ymdrech i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion, a byddwn bob amser yn ceisio gweld sut mae gwella'r gwasanaethau i'r cleifion. Yr ydym wedi rhestru'n isod safonau'r gwasanaeth y gallwch ei disgwyl gan y practis hwn. Gofynnwn i chi gydweithio gyda ni trwy ddangos cwrtseisi tuag at ein staff.

SAFONAU GOFAL

Fel claf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol sydd wedi cofrestru gyda'n practis ni, bydd gennych yr hawl i'r canlynol:

- Cwrteisi a pharch oddi wrth ein staff.
- Preifatrwydd a chyfrinachedd wrth siarad ag unrhyw aelod o'r staff.
- Byddwch yn cael apwyntiad y diwrnod hwnnw os byddwch angen gweld y Meddyg ar frys, neu gyn gynted ag y bo modd.
- Eglurhad clir am unrhyw driniaeth a gynigir i chi gan dîm ein practis.
- Bydd eich meddyginiaethau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd os ydych yn derbyn amlbresgripsiwn.
- Byddwch yn cael eich cyferio at Feddyg Ymgynghorol sy'n dderbyniol i chi, pan fydd eich Meddyg Teulu yn meddwl bod angen gwneud hynny, a byddwch yn cael eich hanfon i gael ail-farn os ydych chi a'ch Meddyg Teulu yn cytuno mai dyna fyddai orau.
- Mae'r Ddeddf Diogelwch yn rhoi hawl i chi gael mynediad i'ch cofnodion iechyd. Ysgrifennwch at Reolwr y Practis os ydych yn dymuno gweld y cofnodion hynny neu i wneud copïau ohonynt. Efallai y codir tâl bychan am y gwasanaeth hwn.
- Bydd eich ymholiadau dros y ffôn yn cael eu hateb yn syth, ac yn cael eu trin yn effeithiol.
- Byddwch yn cael gwybod beth yw canlyniadau profion a phelydr-x a chanlyniadau cleifion allanol pan fyddwch yn gofyn amdanynt.
- Byddwn yn ymdrechu i fodloni pob cais am apwyntiad gan gleifion. Hefyd:
 - Gall cleifion cofrestredig rhwng 16 a 74 oed sydd heb gael eu gweld ers 3 blynedd ofyn am ymgynghoriad.
 - Gall cleifion cofrestredig dros 75 oed sydd heb gael eu gweld ers 12 mis ofyn am ymgynghoriad. Os nad ydych yn medru mynd i'r feddygfa i gael yr ymgynghoriad hwn oherwydd salwch, gallwn drefnu ymweliad cartref.

SUT Y GALLWCH CHI EIN HELPU NI I'CH HELPU CHI

- Trwy fod yn gwrtais i bob aelod o'n staff.
- Trwy roi i'r Meddyg yr holl wybodaeth berthnasol am eich cyflwr a'ch hanes meddygol.
- Trwy roi gwybod i ni pan fyddwch yn symud neu'n newid eich rhif ffôn – mae'n rhaid i ni gael y manylion diweddaraf yn ein cofnodion.
- Trwy gadw apwyntiadau, a thrwy roi cymaint ag y bo modd o rybudd os byddwch yn gorfod eu ddileu.
- Trwy ddefnyddio'ch apwyntiad ar gyfer un person yn unig.
- Trwy beidio â disgwyl presgripsiwn bob tro y byddwch yn gweld y Meddyg - mae dilyn ein cyngor yn gallu bod yn llawer mwy effeithiol na chyffuriau.

- Trwy roi rhybudd o ddau ddiwrnod gwaith cyn casglu amlbresgripsiwn.
- Trwy gofio gwneud cais am ymweliad cartref cyn 10.00yb os ydych angen ymweliad cartref.
- Trwy alw'r Meddyg (y tu allan i oriau) mewn argyfwng yn unig ac nid i gael triniaeth arferol, apwyntiad neu bresgripsiwn.

Gallwch ein helpu trwy roi gwybod i ni pan na fyddwch yn fodlon gyda'r gwasanaethau a ddarperir gennym, neu os oes gennych sylwadau defnyddiol ynglyn â sut y gellir eu gwella. Mae blwch awgrymiadau ar gael ar gyfer eich sylwadau ynglyn â gwella ein gwasanaeth.

CLEIFION TREISGAR

Ni fydd y practis yn goddef trais (corfforol neu eiriol), AC MAE GENNYM YR HAWL I DYNNU ENWAU CLEIFION oddi ar y rhestr yn syth er mwyn diogelu staff y practis, cleifion ac ymwelwyr eraill. Bydd y claf yn cael gwybod mewn llythyr bod ei enw wedi cael ei dynnu oddi ar y rhestr, a bydd yn cael ei gofnodi yng nghofnodion meddygol y claf ynghyd â'r amgylchiadau arbennig a arweiniodd at hyn. Y Bwrdd Iechyd Lleol fydd yn gyfrifol wedyn am ddarparu gofal meddygol pellach.

Y DREFN CWYNO

Byddwn bob amser yn ceisio darparu'r gwasanaethau gorau bosib, ond efallai y bydd adegau pan fyddwch yn teimlo nad yw hyn wedi digwydd. Mae'r wybodaeth canlynol yn egluro ein trefn cwyno mewnol sydd wedi ei llunio i ymateb i gwynion cleifion.

Nid yw trefn cwyno ein practis yn gallu ymdrin â chwestiynau ynglyn ag atebolrwydd cyfreithiol neu iawndal. Rydym yn gobeithio y byddwch yn defnyddio'r drefn i'n caniatáu ni i edrych i mewn i unrhyw broblemau yr ydych wedi eu canfod neu gamgymeriadau sydd wedi eu gwneud a'u cywiro lle bo angen. Os byddwch yn defnyddio'r drefn hon, ni fydd yn effeithio ar eich hawl i wneud cynw yn i'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Sylwch fod yn rhaid i ni barchu ein dyletswydd o gyfrinachedd i gleifion a bydd yn rhaid cael caniatâd y claf os na fydd cwyn yn cael ei wneud gan y claf ei hun. Os ydych am wneud cwyn, ffoniwch neu ysgrifennwch at Reolwr y Practis. Byddwn yn cymryd y manylion llawn ac yn penderfynu ar y ffordd orau i ymchwilio i'r mater.

Credwn bod yn bwysig ymdrin â chwynion yn syth, felly byddwch yn cael cynnig apwyntiad i gael cyfarfod i drafod y mater o fewn saith diwrnod. Weithiau bydd hyn yn cymerid mwy o amser ond byddwn yn cadw mewn cysylltiad â chi trwy'r amser. Gallwch ddod â ffrind neu berthynas gyda chi i'r cyfarfod.

Byddwn yn ceisio ymateb eich pryderon, yn rhoi eglurhad i chi ac yn trafod unrhyw weithred a fydd angen.

CYFRINACHEDD

Bydd eich cofnodion meddygol yn cael eu gadw'n gwbl gyfrinachol. Ni fydd gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo heb eich caniatâd chi oni fydd hynny o fewn terfynau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, trwy fframwaith cyfreithiol, neu os bydd yn fater o ddiddordeb cyhoeddus. Gellir rhannu rhywfaint o ddata cleifion yn ddiennw i ddiibenion iechyd cyhoeddus ac awdit, ymchwil, dysgu a hyfforddiant. Mae'n arferiad ac yn ofyniad cyfreithiol fod pob aelod o'r staff yn diogelu cyfrinachedd cofnodion cleifion.

RHYDDID GWYBODAETH -CYNLLUN CYHOEDDIAD

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gorfodi y Practis i gynhyrchu Cynllun Cyhoeddiad. Mae'r Cynllun yn arweinydd i'r fath o wybodaeth mae'r practis yn bwriadu rhoi ar gael yn arferol.

Mae manylion ar gael or cynllun yn y dderbynfa.

RHIFAU FFÔN PWYSIG

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader

17 Stryd Fawr

Llangefni

LL77 7LT(01248) 751229

Galw Iechyd Cymru 0845 46 47

Ysbyty Gwynedd, Bangor (01248) 384384

Ysbyty Penrhos Stanley, Caerdybi (01407) 766000

Swyddfa'r Heddlu, Caerdybi (01407) 762323

Canolfan Cyngor Ar Bopeth, Caerdybi (01407) 762882

Y Samariaid (Bangor) (01248) 354646

Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni (01248) 750057

Canolfan Cyffuriau Gymunedol (Neuadd y Dref) (01407) 760652

Cofiwch.....

Os cadwch yn fywiog

Gwylw eich pwysau

Peidio ag ysmegu

Yfed alcohol yn gymedrol yn unig



A pheidio â phoeni'n ormodol

Yna mae'n bosib na fyddwch ein hangen o gwbl!


PRACTIS GRWP MEDDYGFA VICTORIA

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn i groesawu cleifion a rhoi gwybodaeth iddynt. Derbyniwch y copi hwn er gwybodaeth. Rydym yn eich cynghori i gadw'r llyfryn wrth ymyl eich ffon fel ei fod yn hwylus wrth law. Os ydych angen rhagor o wybodaeth neu gyngor ynglyn a chynnwys y llyfryn gofynnwch i'r staff yn y dderbynfa am gymorth.

**Y MEDDYGON TEULU
(Parneriaeth anghydyngedig)**



DALGYLCH PRACTIS / PRACTICE AREA



PRACTICE BOOKLETS ARE SPECIALLY PREPARED BY
Neighbourhood Direct Ltd A MEMBER OF THE OLDROYD
PUBLISHING GROUP LTD

Keenans Mill, Lord Street, St Annes-on-Sea, Lancs FY8 2ER Tel: 01253 722142 Fax: 01253 714020
Website: <http://www.opg.co.uk> Email: info@opg.co.uk

COPYRIGHT WARNING: All rights reserved. No part of this publication may be copied or reproduced, stored in a retrieval system or transmitted in any form or by any means electronic, mechanical, photocopy, recording or otherwise without the prior written permission of the publisher.

The practice would like to thank the various advertisers who have helped to produce this booklet. However, it must be pointed out that the accuracy of any statements cannot be warranted, nor any products or services advertised, be guaranteed or endorsed.



Practice Booklets are published by Neighbourhood Direct Ltd. 01253 722142